



Ysgol Pentreuchaf

71. Polisi Defnydd o 1265 Awr

Nod

Sicrhau ein bod yn defnyddio'r oriau'n effeithiol a chydwybodol gan fanteisio ar bob cyfle yn y cyfnodau pan fo'r staff i gyd gyda'i gilydd.

Amcanion

Trefnu cyfres o gyfarfodydd sy'n cynnwys yr elfennau canlynol:

1. Datblygiad Staff
2. Cynllunio Gwaith
3. Monitro
4. Asesu
5. Hyfforddiant Mewn Swydd
6. Materion Cwricwlaidd
7. Materion Rheolaethol
8. Materion yn codi

Canllawiau

1. Datblygiad Staff.

Edrych ar y modd mwyaf effeithiol i hyrwyddo datblygiad staff gan gynnwys trafodaethau cyson a.y.y.b.

2. Cynllunio Gwaith.

Byddwn yn cyd-gynllunio ein Cynlluniau Gwaith, ond teimlwn ei bod hefyd yn bwysig sicrhau cyfnodau o gyd-drafod cyn ac ar ôl cynllunio tymhorol, cyfnodau o rannu awgrymiadau, sylwadau a phrofiadau.

3. Monitro

Creu amserlen Monitro, y Cydlynwyr i arwain ar drafodaethau i adnabod a chydweld ar Feini Prawf addas, dyddiadau, ac yna ysgrifennu adroddiadau i'r staff a'r Llywodraethwyr.

4. Asesu

Trafod y drefn asesu a thracio plant, arferion da a chymedroli asesiadau ffurfiol.

5. Hyfforddiant mewn Swydd.

Sicrhau cyfnod o adrodd yn ôl yn dilyn cwrs neu gyfres o gyrsiau. Oherwydd y toriadau anorod mewn cyrsiau, rhaid edrych ar ffyrdd gwahanol o ddiwallu anghenion athrawon a chymhorthyddion.

6. Materion Cwricwlaidd.

Paratoi a thrafod Cynlluniau Gwaith a Pholisiau.

7. Materion Rheolaethol.

Sicrhau trafodaethau manwl/rheolaidd ymysg yr UDRh, yn enwedig wrth lunio adroddiadau arfarnu, cyn paratoi Cynllun Datblygu Ysgol, staffio, Rheoli Perfformiad, amser CPA a.y.y.b.

6. Materion yn Codi.

Delio â materion yn codi yn achlysurol -

i) Cyfarwyddiadau o'r Awdurdod.

ii) Llythyrau.

iii) Swydd Ddisgrifiadau.

iv) Ceisiadau i gael cyswllt â'r gymuned a gweithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol.

v) Cyswllt â'r rhieni.

vi) Unrhyw fater arall y teimla'r staff angen ei drafod.

7. Cedwir manylion perthnasol o benderfyniadau a sylwadau yn gyfrinachol i athrawon yr ysgol yn unig i sicrhau fod pawb yn teimlo'n hollol rydd i gynnig syniadau, mynegi pryderon a.y.yb.

Casgliad

Gan ein bod yn ysgol fawr gyda nifer fawr o staff rhaid cofio fod trafodaethau ffurfiol yn holl bwysig i sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo yn rhan o'r tîm, gyda chyfraniad gwerthfawr i'w gynnig.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____